Teitl y Swydd: Tiwtor Cymraeg i Oedolion a Sgiliau Iaith

Uned/Ysgol: Yr Uned Gymraeg

Gradd: 4A/B

HERA: WL04

**Prif bwrpas y rôl**

Mae Uned Gymraeg Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn arwain ar ddatblygu a thyfu darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd ledled y Brifysgol.

I gefnogi amcanion y Brifysgol o gynyddu darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, mae'r Uned Gymraeg yn darparu ystod o raglenni dysgu Cymraeg ynghyd â chyrsiau codi hyder (o ddechreuwyr hyd at lefel hyfedredd) i staff a myfyrwyr.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddarparu rhaglenni Cymraeg i Oedolion i fyfyrwyr a staff dros ddau gampws y Brifysgol ac ar-lein, yn ogystal â pharatoi myfyrwyr Met Caerdydd at ymgymryd ag arholiadau Tystysgrif Sgiliau Iaith Cymraeg (TSI) y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Ariennir y rôl gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond bydd deiliad y swydd yn aelod o staff Met Caerdydd.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Addysgu ystod o raglenni Cymraeg i Oedolion sy'n amrywio o ddechreuwyr i raglenni hyfedredd.
- Helpu i ddatblygu a lansio rhaglenni dysgu a datblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer myfyrwyr a staff.
- Darparu’r rhaglenni hyn drwy gyfuniad o addysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein.
- Datblygu a pharatoi adnoddau addysgu yn ôl yr angen, gan deilwra'r gwersi i anghenion y dysgwyr ym mhob dosbarth.
- Gosod asesiadau priodol ar gyfer pob rhaglen.
- Gweithio gyda'r Uned Gymraeg i weinyddu'r rhaglenni, gan gynnwys recriwtio dysgwyr, cofrestru, asesu lefel, a gweithgareddau cynorthwyo/anffurfiol.
- Cyfrannu at raglen o ddigwyddiadau dysgu 'Cymraeg Anffurfiol' yr Uned Gymraeg a chymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu sgiliau a gwybodaeth ‘Cymraeg i Oedolion’ y tîm.
- Sicrhau bod staff a myfyrwyr Met Caerdydd yn ymwybodol o gyfleoedd y tu allan i'r Brifysgol i ddefnyddio a gwella eu Cymraeg.

- Cydlynu trefniadau Tystysgrif Sgiliau Iaith y Brifysgol: hyrwyddo'r dystysgrif, cofrestru ymgeiswyr, trefnu sesiynau paratoi, trefnu asesiadau llafar, arholiadau ysgrifenedig, ac ati.
- Darparu gweithdai/sesiynau paratoi ar gyfer ymgeiswyr y TSI.
- Mynychu hyfforddiant asesu arholiad llafar y Dystysgrif Sgiliau Iaith gyda Phrif Arholwr CBAC, ynghyd â sesiwn friffio cyn yr arholiad ysgrifenedig.
- Mynychu cyfarfodydd eraill a drefnir gyda swyddogion o'r Coleg Cymraeg i rannu arfer da a rhoi adborth ar y Dystysgrif Sgiliau Iaith.

**<u>Manyleb person</u>**

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaeth broffesiynol**

- Addysg hyd at lefel gradd neu gyfwerth.
- Yn gymwys i addysgu Cymraeg i oedolion o dan reoliadau Cymraeg i Oedolion 2002, h.y. Cymhwyster i addysgu Cymraeg i Oedolion, neu brofiad o addysgu oedolion cyn 2002, neu gymhwyster addysgu priodol.

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Dealltwriaeth o raglenni Cymraeg i Oedolion a ddarperir yng Nghymru.
2. Dealltwriaeth o addysgeg effeithiol wrth ddarparu rhaglenni Cymraeg i Oedolion.
3. Dealltwriaeth gynhwysfawr o ramadeg y Gymraeg.
4. Dealltwriaeth o’r Dystysgrif Sgiliau Iaith.
5. Dealltwriaeth o ddarparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion drwy e-ddysgu.
6. Profiad o ddarparu rhaglenni Cymraeg i Oedolion, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir.
7. Sgiliau trefnu da.
8. Y gallu i weithio'n effeithiol i derfynau amser.
9. Y gallu i weithio'n effeithiol fel unigolyn a defnyddio'ch menter eich hun.
10. Sgiliau rhyngbersonol da.
11. Sgiliau TG da, yn enwedig mewn perthynas â chreu a darparu adnoddau addysgu.
12. Y gallu i ddarparu rhaglenni Cymraeg i Oedolion drwy ddulliau e-ddysgu.

**Dymunol**

1. Profiad o gyflwyno darpariaeth Tystysgrif Iaith Gymraeg i fyfyrwyr a chydlynu trefniadau arholiadau.

2. Cymhwyster yn y Gymraeg fel pwnc, Lefel O, TGAU neu gymhwyster uwch.

3. Profiad o weithio yn y sector AU.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifydd | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | | | | |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | Hanfodol | Hanfodol | Hanfodol | Hanfodol |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

**Gwybodaeth ategol**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.